# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Towy Castle**

**Cartref Preswyl Towy Castle**
**Uplands**
**Caerfyrddin**
**SA32 8DY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

05/07/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Towy Castle

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Carmarthen Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 60 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>20/2/2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Gwelsom fod y bobl sy'n byw yng Nghartref Gofal Towy Castle yn cael gofal a chymorth cyson wedi'i ddarparu gan dîm o staff profiadol a gwybodus. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn fanwl ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff gofal i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Mae hanes bywyd yn dangos i'r staff gofal beth sy'n bwysig i'r bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd garedig a gofalgar.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol drosolwg da o ddarpariaeth y gwasanaeth ac mae'n cefnogi'r rheolwr cofrestredig i roi cyfeiriad clir a sicrhau bod y tîm staff yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr ac yn cael sesiynau goruchwylio unigol yn rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr yn sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd i'r staff, y bobl a'u cynrychiolwyr, ac yn croesawu unrhyw adborth am y gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac mae ganddo safonau hylendid rhagorol. Mae gwiriadau, gwasanaethu a chynnal a chadw rheolaidd yn sicrhau bod y cartref a'i gyfleusterau'n ddiogel.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant ac yn cael eu hannog i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Nodwyd gennym fod rhai dogfennau, megis y fwydlen a'r amserlen gweithgareddau yn cael eu llunio ar ffurf ddarluniadol; mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r bobl sy'n byw gyda dementia wneud dewisiadau.

Mae barn a safbwyntiau'r bobl yn bwysig a gwrandewir ar y bobl. Mae'r rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod dymuniadau'n cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n bosibl. Gwelsom newidiadau yn cael eu gwneud i'r fwydlen yn dilyn cais gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Mae tystiolaeth yn y cofnodion bod y Cydgysylltydd Gweithgareddau yn cyfarfod yn rheolaidd â'r bobl i gynllunio a gwerthuso'r holl weithgareddau. Gwelsom y bobl yn cael eu grymuso i gymryd rhan mewn sesiwn ganu.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl yn naturiol ac yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd gwirioneddol. Dywedodd un aelod teuluol wrthym, *"Mae'r staff yn wirioneddol ofalgar, maen nhw'n paentio ewinedd fy mam ac yn gwybod beth sy'n bwysig iddi. Ar daith i'r traeth yn ddiweddar, fe wirfoddolodd staff nad oeddynt ar shifft i fynd i helpu, mae hyn yn dangos eu bod nhw'n gofalu".*

Mae'r trosiant staff yn isel ac mae hyn yn sicrhau dilyniant o ran gofal i'r bobl. Dywedodd aelod teuluol arall, *"Rwy wrth fy modd gyda phopeth".*

Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu'r bobl sy'n agored i niwed. Mae risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu hasesu a'u rheoli'n effeithiol.

Gwelsom gyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio i leihau'r risgiau o ran heintiau. Mae'n ofynnol i bob ymwelydd ddangos canlyniad prawf COVID-19 negyddol cyn cael mynediad i'r adeilad.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal gan staff sydd â phrofiad a hyfforddiant i gyflawni eu rôl. Mae'r cynlluniau gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r cofnodion wedi'u gosod yn glir sy'n galluogi'r staff i gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Dywedodd un aelod o staff wrthym, *"Maen nhw (cynlluniau gofal) yn adrodd stori sy'n hawdd ei darllen a'i dilyn, maen nhw wedi'u gosod allan yn dda nawr".* Cedwir taflen 'Dyma fi' ar ffeiliau unigol sy'n rhoi manylion personol i'r staff am unigolion gan gynnwys hanes eu bywyd. Mae hyn yn helpu'r staff gofal i feithrin perthnasoedd cadarnhaol â'r bobl a dealltwriaeth ddyfnach o'u hanghenion, a'r canlyniadau a ddymunir, a'r ffordd orau o gyflawni'r rhain.

Dywedodd y bobl a'u cynrychiolwyr y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus ar y gofal a'r cymorth a ddarperir, dywedasant "*Mae'r merched yn wych, os ydych chi eisiau unrhyw beth, rydych chi'n gallu gofyn. Rwy'n deffro am chwech o'r gloch ac yn pwyso'r seinydd ac mae fy nhe yn dod. Does dim rhaid i mi aros am unrhyw beth, maen nhw yno'n syth.*" Dywedodd aelod teuluol wrthym, *"Unrhyw beth rwy'n gofyn iddyn nhw (staff) maen nhw'n ei wneud, does dim byd na fydden nhw'n ei wneud i mam neu unrhyw un arall, maen nhw wir yn gofalu".*

Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y staff gofal a'r rheolwyr i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth mwyaf priodol. Mae'r cofnodion dyddiol yn fanwl ar y cyfan ond byddent yn elwa ar fwy o gysondeb gan y staff gofal.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion gofal y bobl bod gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwneud â chynllunio ac adolygu gofal, gan gynnwys meddyg teulu, nyrs ardal, gweithiwr cymdeithasol, ffisiotherapydd, optegydd a phodiatrydd.

Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y bobl yn cadw'n ddiogel rhag heintiau COVID-19 cyn belled ag y bo modd: mae hyn yn cynnwys monitro pob ymwelydd a'r defnydd priodol o gyfarpar diogelu personol gan yr holl staff.

## Yr Amgylchedd

Mae digon o le yn y cartref ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae'r bobl yn elwa ar safon uchel iawn o lanweithdra ym mhob rhan o'r cartref. Roedd yr ystafelloedd ymolchi cymunol yn eithriadol o lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac roedd cyfarpar symud a thrin arbenigol ynddynt ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r perchennog a'r unigolyn cyfrifol yn parhau i ddatblygu a gwneud gwelliannau i'r cartref, ac yn ddiweddar cwblhawyd estyniad i gynnwys ardal eistedd sy'n darparu golygfeydd hyfryd dros aber yr Afon Tywi. Yn ogystal â hyn, mae siop goffi y mae ymwelwyr a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gallu ei mwynhau. Prynwyd caban pren hefyd i alluogi pobl i ymweld yn ystod y pandemig, ac mae hyn bellach yn ardal ychwanegol lle y gall y bobl fwynhau treulio amser yn yr awyr agored.

Yn ystod y pandemig mae hi wedi bod yn anodd trefnu i waith gael ei wneud, fodd bynnag, nawr bod y cyfyngiadau wedi'i llacio, mae addurno ac uwchraddio'r cartref drwyddo draw yn parhau. Mae'r ystafelloedd dydd wedi'u hailaddurno a gosodwyd lloriau newydd mewn naw ystafell wely yn ddiweddar. Mae'r ailaddurno'n parhau ar hyd y coridorau ac mae cynlluniau i ymestyn y golchdy.

Anogir y bobl i osod gwedd bersonol ar eu hystafelloedd trwy ddefnyddio eu hoff ddarnau o ddodrefn o'u cartref blaenorol sydd â gwerth sentimental ac eitemau megis addurniadau a ffotograffau. Gwelsom fod gan un person ei ardal batio ei hun y tu allan, lle'r oedd dodrefn gardd a bwydwyr adar i'w gweld trwy ffenestr yr ystafell wely. Dywedodd un person wrthym, "*Rwy'n mwynhau fy ystafell, mae gen i bopeth sydd ei angen arnaf i, roeddwn i'n gallu dod â'm cynfasau fy hun, mae hyn yn gwneud gwahaniaeth".* Mae salon gwallt ar y safle ac mae'r triniwr gwallt yn ymweld yn rheolaidd.

Mae mesurau ar waith i sicrhau diogelwch amgylcheddol. Gwelsom fod tystysgrifau diogelwch ar gyfer cyfleustodau fel nwy, dŵr a thrydan ar waith. Gwelsom gofnodion i ddangos bod cyfarpar symud a thrin arbenigol yn cael ei wirio'n rheolaidd. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Tân wedi cynnal gwerthusiad o'r diogelwch tân a ddarperir yn y cartref ac wedi nodi rhai meysydd sydd angen sylw. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i'r Gwasanaeth Tân ac i AGC yr eir i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl a bydd hyn yn cael ei wirio yn yr arolygiad nesaf.

Mae deunyddiau peryglus a glanhau yn cael eu storio'n ddiogel, yn unol â Rheoliadau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) 2002. Mae gan gypyrddau dan glo fysellbadiau sy'n galluogi mynediad i'r rhai sydd ei angen yn unig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac mae ganddo oruchwyliaeth dda o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg a'i reoli o ddydd i ddydd. Mae systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Gwelsom dystiolaeth i ddangos yr ymgynghorir â staff, y bobl a'u cynrychiolwyr ynghylch eu dymuniadau a'u barn. Mae arolygon ar-lein, cyfarfodydd staff a phreswylwyr a thrafodaethau anffurfiol â'r rheolwyr, yr unigolyn cyfrifol a'r perchennog yn rhoi cyfleoedd i wneud hyn. Defnyddir yr wybodaeth hon i ffurfio rhan o'r adolygiad ansawdd gofal y mae'r unigolyn cyfrifol yn ei gwblhau bob chwe mis. Mae'r adroddiad diweddaraf yn nodi'n glir gryfderau'r gwasanaeth ac unrhyw feysydd lle gellir eu gwella.

Mae cofnodion y staff yn dangos i ni eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd a dywedodd aelod o staff wrthym, "*Mae goruchwyliaeth bob tri mis, ond mae'r drws bob amser ar agor, a dwi'n mynd yn syth at y rheolwr os oes gen i broblem, dwi ddim yn oedi*". Dywedodd aelod arall o staff, "*Mae hawdd mynd at y rheolwyr, mae'r unigolyn cyfrifol yn delio â phethau ar unwaith."* Gwelsom y staff, y bobl ac ymwelwyr yn cael sgyrsiau digymell â'r rheolwyr, a oedd yn gweithredu polisi drws agored, drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn gan broses recriwtio ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio yn unol â deddfwriaeth. Gwnaethom archwilio nifer o'r ffeiliau personél a gallem weld bod y gwiriadau cyn-cyflogaeth angenrheidiol wedi'u cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a geirdaon gan gyn-gyflogwyr. Hoffem weld mwy o fanylion mewn gwiriadau hanes cyflogaeth. Mae hyn wedi cael ei drafod â'r rheolwyr a gytunodd i sicrhau bod y manylion hyn yn cael eu rhoi yn y ffeiliau.

Mae'n ofynnol i weithwyr newydd gwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig wrth ddechrau cyflogaeth a darperir hyfforddiant llawn ar ôl hynny. Mae'r rheolwr hyfforddiant ar hyn o bryd yn newid i ddarparwr hyfforddiant arall, ac felly bydd rhan helaeth o'r hyfforddiant yn cael ei gyflawni gan y staff dros y misoedd nesaf i sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Mae'r pandemig hefyd wedi ei gwneud hi'n heriol i'r staff ymgymryd â'r holl hyfforddiant gofynnol. Yn yr arolygiad nesaf byddwn yn disgwyl gweld bod yr holl staff wedi dilyn yr hyfforddiant angenrheidiol. Dywedodd aelod o staff wrthym "*Mae'r hyfforddiant ar gyfer y staff yn dda; mae'r unigolyn cyfrifol yn cytuno nad swydd yn unig yw hon, mae'n yrfa yn enwedig i bobl iau sy'n dechrau ym myd gofal."*

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/08/2022